

Cynorthwy-ydd Arlwyo

Proffil Rôl / Disgrifiad Swydd

Teitl Rôl:

Cynorthwy-ydd Arlwyo (wedi'i leoli'n bennaf yng Nghanolfan Cyfarthfa, ond yn beripatetig dros safleoedd Lles@Merthyr, yn unol â galw cwsmeriaid ac ymateb tymhorol)

Yn Gyfrifol i:

Rheolwr Arlwyo

Oriau:

20 awr yr wythnos

Cyflog:

I'w Gadarnhau

Pwrpas Cynradd:

Bydd y Cynorthwy-ydd Arlwyo yn gyfrifol am gefnogi darpariaeth profiad cwsmer effeithiol, gwybodus a chyfeillgar ym mhob maes cyflenwi masnachol yng Nghanolfan Cyfarthfa, a leolir ar dir Parc Cyfarthfa. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am baratoi bwyd, gweini cynhyrchion bwyd, glanhau, a delio â thaliadau.

Bydd y Cynorthwy-ydd Arlwyo yn hunanysgogol, gyda gwybodaeth ragorol o gynnyrch bwyd/diod, diogelwch bwyd, a gweithdrefnau iechyd a diogelwch. Bydd gofal cwsmer arddangosadwy ragorol ganddynt, yn ogystal â deallusrwydd a phrofiad o weini.

Cyfrifoldebau Arbenigol:

(paramedrau eang)

1. Arddangos dealltwriaeth diogelwch bwyd ac iechyd a diogelwch rhagorol – gan sicrhau rhagoriaeth Lles@Merthyr yn ei rwymedigaethau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth gyfredol a diwydrwydd dyladwy – a sicrhau cyfrifoldeb dros eu hunain ac eraill fel rhan o'r frigâd gegin;
2. Dealltwriaeth arddangosadwy o Gyfraith Natasha (Hydref 2021) mewn perthynas â chyhoeddi alergenanau i gwsmeriaid;
3. I sicrhau y caiff cwsmeriaid ym mhob maes gweithredu eu trin mewn modd cwrtais ac effeithlon;
4. I chwarae rhan allweddol wrth baratoi a gweini cynnyrch bwyd yn ôl y cyfarwyddyd;
5. Dilyn gweithdrefnau gweithredu safonol, manylebau bwydlen a rhestrau cynhwysion;
6. I gynorthwyo â derbyn danfoniadau mewn modd amserol a chywir, gan adrodd unrhyw anghysondebau i'r Rheolwr Arlwyo neu aelod o'r tîm rheoli sydd ar gael;
7. I sicrhau bod holl wasanaeth a darpariaeth bwyd i gwsmeriaid yn ddeniadol, a bod safonau glendid uchel ganddynt;
8. Arddangos sylw arbennig i'r manylion ym meysydd paratoi bwyd, gweini, gwaith tîm a rheoli cegin;
9. Cydnabod a gweithredu ar anghenion gwesteion unigol wrth arsylwi safonau sy'n cydynd â gweithdrefnau gweithredu safonol Bwyd a Diod, gan gymryd perchnogaeth lawn o'r digwyddiadau a'r sifftiau a ddyrannwyd;
10. I sicrhau bod llofnodion cwsmeriaid yn cael eu ceisio a'u caffael pan fo angen;

Tudalen 1

11. I fod yn gyfrifol am gymryd taliadau a'r 'float', gan sicrhau bod triniaeth arian parod yn cydymffurfio â gweithdrefnau Lles @ Merthyr;
12. I gynnal lefelau rhagorol o wasanaeth cwsmeriaid mewnol ac allanol, a hyrwyddo cynigion bwyd, gan wneud y mwyaf o gyfleoedd gwerthu trwy uwch-werthu pryd bynnag y bo modd;
13. I ddeall y farchnad arlwyio leol, a helpu'r tîm gyda syniadau newydd i wella profiad cwsmeriaid a chadw Lles @ Merthyr o flaen unrhyw gystadleuaeth;
14. Ymgymryd â chyfleoedd hyfforddi a datblygu personol pryd bynnag y maent yn cyflwyno eu hunain – ac yn ôl gofyn Lles @ Merthyr – i fedru cyflawni'r rôl yn effeithiol;
15. Cynorthwyo gwesteion lle bo hynny'n berthnasol wrth ddewis bwyd a diod a chael gwybodaeth lawn o'r holl gynhyrchion sydd ar gael yn allfeydd arlwyio Lles@Merthyr;
16. I ymrwmo i werthoedd Lles@Merthyr, eu harddangos, ac i ymddwyn fel model rôl i'r sefydliad bob amser;
17. Sicrhau bod cynhyrchiad cynhyrchion yn y gegin yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth angenrheidiol, gan gynnwys labelu a chludiant bwyd;
18. Sicrhau dealltwriaeth o bolisi lladrata Lles@Merthyr, a bod pob gwerthiant gostyngedig yn cael eu cofnodi'n gywir ar system EPOS;
19. Sicrhau cynhaliath profiad bwyd a diod cwsmeriaid a safonau manwerthu cyffredinol bob amser;
20. Perfformio tasgau yn ôl cyfarwyddyd eich Rheolwr Llinell.

Cyfrifoldebau Cyffredinol: (paramedrau eang)

1. I ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol, yn unol â gweledigaeth Lles@Merthyr a'i gleientiaid;
2. I ddarparu cyfathrebu dwyffordd a chymryd/arddangos perchnogaeth ym mhob agwedd ar eu gwaith ac amgylchedd gwaith bob amser;
3. Cyrraedd y gwaith yn brydlon a chynnal safonau gwisg lân/taclus ac ymddangosiad personol uchel, yn unigol ac o ran y tîm;
4. I weithio'n beripatetig dros unrhyw un o safleoedd Lles@Merthyr, yn unol â galw cwsmeriaid ac ar ofyn y Rheolwr Arlwyio;
5. I gynorthwyo'r tîm yn narpariaeth anghenion cwsmeriaid, yn unol â natur y busnes fel yr amlinellir yn y gweithdrefnau gweithredu safonol;
6. Sicrhau bod yr amgylchedd gwaith yn ddiogel, gan adrodd unrhyw faterion/perylglon cynnal a chadw/iechyd a diogelwch i'r Rheolwr Arlwyio;
7. I gymryd cyfrifoldeb dros lechyd a Diogelwch, yn bersonol a thros eraill;
8. I gadw at reoliadau Lles@Merthyr ar lechyd a Diogelwch yn y Gwaith, Diogelwch Bwyd, Tân, Trwyddedu, y Ddeddf Gwerthu Nwyddau a Safonau Masnach;
9. I weithio o fewn canllawiau Rheoliadau Tân, Cyfraith Trwyddedu, y Ddeddf Gwerthu Nwyddau a Safonau Masnach;
10. Fel amod cyflogaeth, efallai y bydd gofyn i ddeiliad y swydd gyflawni dyletswyddau a/neu amseroedd gwaith eraill, o fewn rheswm, sy'n gymesur â gradd neu lefel gyffredinol y cyfrifoldeb o fewn Lles@Merthyr;
11. I gofnodi tymereddau pob bwyd risg-uchel wrth ei dderbyn a chyn ei weini;
12. I sicrhau'r defnydd cywir o ddeunyddiau ac offer bob amser, ac i sicrhau y caiff ardaloedd gwaith eu cadw'n lân a thaclus;
13. Ymgymryd â glanhad pob arwyneb gwaith, offer, storfeydd ardaloedd atodol yn rheolaidd a chyson;

Tudalen 2



WellbeingMerthyr



Wellbein@Merthyr

Mae Lles Merthyr yn gwmni a gyfyngir drwy wariant a statws elusenol.
Wellbeing Merthyr is a company limited by guarantee with charitable status.
Rhin y Cwmni / Company No. 09172730 / Rhif Elusen Gofrestrig / Registered Charity No. 1160964

Lles
@Merthyr
Yn Creu Cymunedau
Iachach A Hapusach

Wellbeing
@Merthyr
Creating Healthier and
Happier Communities

14. I gynorthwyo wrth osod a phacio digwyddiadau i lawr, yn unol â gweithdrefnau, yn ddyddiol ac yn ôl y galw;
15. I ymgymryd â gweithgareddau glanhau trylwyr yn gyson ac yn ôl cyfarwyddyd y Rheolwr Arlwy;
16. I sicrhau y caiff cyfrinachedd ei gynnal bob amser;
17. I dderbyn archebion gan gwsmeriaid, a pharatoi/gweini'r archebion yn brydlon a chyfeillgar;
18. I fod yn aelod tîm gweithredol a chynorthwyol, gan gyfrannu mewn modd adeiladol a thrin holl staff Lles@Merthyr gyda thegwch a chwarteisi;
19. I sicrhau bod y bwyd a diod a weinir i gwsmeriaid o safon uchel gyson a'i fod wedi'i gyflwyno'n dda
20. I hyrwyddo defnydd yr iaith Gymraeg yn weithredol;
21. I hyrwyddo gwerthoedd craidd ac egwyddorion Lles@Merthyr yn weithredol;
22. I ymgymryd â phob dyletswydd gan roi sylw dyledus i bolisi cydraddoldeb Lles@Merthyr ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol;
23. I ymgymryd â phob dyletswydd gan roi sylw dyledus i werthoedd craidd ac egwyddorion Lles@Merthyr;
24. Ni ddylid ystyried y rhestr dyletswyddau yn y disgrifiad swydd yn gyfyngedig na'n gynhwysfawr. Bydd dyletswyddau a gofynion eraill yn gysylltiedig â'r swydd ac, fel amod o'ch cyflogaeth, efallai y bydd gofyn i chi ymgymryd â nifer o ddyletswyddau eraill fel sy'n rhesymol ofynnol;
25. Cadw Lles@Merthyr yr hawl i ddiweddarau'r disgrifiad swydd yn ôl y galw, i adlewyrchu newidiadau i'r rôl;
26. I berfformio unrhyw gyfarwyddyd rhesymol arall.

Mesuriadau Llwyddiant:

- Lefelau Gwasanaeth Cwsmeriaid;
- Llwyddiant yn erbyn PDR ac amcanion blynyddol;
- Boddhad ac adborth staff/cwsmeriaid;
- Mekanweithiau adborth mewnol.

Gosoda'r proffil rôl yma brif ddyletswyddau a pharmedrau'r swydd ar y dyddiad y'i lluniwyd. Gall y dyletswyddau hynny amrywio o bryd i'w gilydd heb newid cymeriad cyffredinol y swydd na lefel y cyfrifoldeb y disgwylir. Bydd dyletswyddau ac anghenion eraill, felly, yn gysylltiedig â'ch rôl ac o hynny, fel amod o'ch cyflogaeth efallai bydd gofyn i chi ymgymryd â dyletswyddau amrywiol eraill yn ôl gofyn rhesymol. Mae amrywiaethau tebyg yn ddigwyddiad cyffredin a methu, ar eu pennau eu hunain, â chyfiawnhau ail-ystyriaeth o'r swydd.

Cynorthwy-ydd Arlwyo

Beth ry'n ni'n edrych amdano (Manyleb Person)

Wrth baratoi eich cais ysgrifenedig, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth yn erbyn y criteria isod, un ai mewn sefyllfa gwaith neu sefyllfa bersonol. Efallai y dymunwch ddefnyddio'r model STAR (esboniwrch y Sefyllfa'n fras; y Tasgau a'r Gweithgareddau [Actions] roedd angen i chi eu cymryd; a'r Canlyniadau [Results] i chi, y cwsmer a'r sefydliad).

A. Gwybodaeth a Phrofiad

| Rhif | Nodwedd | Criteria | Mesurwyd |
|------|--|----------|------------------|
| 1. | Profiad bwyd a diod amlwg, gan gynnwys cymhwyster Hylendid Bwyd Lefel 2 o leiaf | Hanfodol | Cais |
| 2. | Profiad blaenorol o weithio mewn amgylchedd arlwyo | Hanfodol | Cais a Chyweliad |
| 3. | Gallu i weithio dros nifer o leoliadau a safleoedd, gan sicrhau cysondeb o ran dull darparu gwasanaeth ym mhob safle, yn ôl anghenion Lles@Merthyr | Hanfodol | Cais a Chyweliad |
| 4. | Gwybodaeth am Gyfraith Natasha (Hydref 2021); rheoliadau Alergenau, HACCP a COSHH; a'r System Rheoli Diogelwch Bwyd. | Hanfodol | Cyweliad |
| 5. | Profiad enillwyd mewn amgylchedd a wyneba cwsmeriaid; gan gynnwys Bwyd a Diod (Caffi, Cynadledda/Gwledda, Diwydiant Bar/Lletygarwch, ac ati) | Hanfodol | Cais a Chyweliad |
| 6. | Diddordeb mawr mewn bwyd, gyda dealltwriaeth dda o'r farchnad leol | Hanfodol | Cais |
| 7. | Profiad o baratoi bwyd, o fewn amgylcheddau arlwyo a digwyddiadau | | Cais a Chyweliad |
| 8. | Gwybodaeth drylwyr am faterion iechyd a diogelwch/iechyd yr amgylchedd | Hanfodol | Cais |
| 9. | Y gallu i weithio dan bwysau, i derfynau amser caeth, heb gyfaddawdu ar ansawdd na'r angerdd i ddarparu gwasanaeth rhagorol | Hanfodol | Cyweliad |
| 10. | Gallu i weithio fel rhan o dîm | Hanfodol | Cyweliad |

B. Sgiliau a Medrau

| Rhif | Nodwedd | Criteria | Mesurwyd |
|------|--|----------|------------------|
| 1 | Yn gyfredol â thueddiadau ac arferion gorau bwyd a diod | Hanfodol | Cais |
| 2 | Y gallu i ddelio â chwsmeriaid ar bob lefel yn hyderus, gan arddangos sgiliau llafar cryno ac effeithiol | Hanfodol | Cais a Chyweliad |
| 3 | Uniondeb personol ac ymrwymiad cryf iawn i gynnal y safonau proffesiynol uchaf. Yn ymddiriedol, gonest ac agored, gyda'r gallu i berchnogi problemau; hunanysgogol | Hanfodol | Cais a Chyweliad |
| 4. | Delio â chwsmeriaid a'u sylwadau/ymholiadau/pryderon gyda thact a sensitifrwydd - gydag angerdd personol yn gwneud gwahaniaeth - gan arddangos ymrwymiad i wella Lles@Merthyr, a'u rôl wrth wneud hynny. | Hanfodol | Cais a Chyweliad |
| 5. | Ymrwymiad i amcanion, gwerthoedd a dyfodol Merthyr Tudful trwy waith yr Ymddiriedolaeth, mewn partneriaeth â'r Cyngor a'r holl randdeiliaid | Dymunol | Cais |
| 6. | Triniaeth/cysoni arian parod cywir | Hanfodol | Cais |

C. Gwerthoedd

| Rhif | Nodwedd | Criteria | Mesurwyd |
|------|---|----------|------------------|
| 1 | Gwerthfawrogiad o, ac ymrwymiad i, ddiwylliant ac athroniaeth unigryw'r sefydliad | Hanfodol | Cais a Chyweliad |
| 2 | Chwaraewr tîm, ag ymrwymiad i weithio ar draws timau, gan ddangos uniondeb | Hanfodol | Cais a Chyweliad |
| 3 | Ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol | Hanfodol | Cais a Chyweliad |
| 4 | Ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus | Hanfodol | Cais |
| 5 | Ysgogwyd gan ganlyniadau, gydag agwedd bositif, 'gall-wneud' | Hanfodol | Cais a Chyweliad |
| 6 | Sgiliau cyfathrebu cryf, yn ysgrifenedig ac ar lafar | Hanfodol | Cais |
| 7 | Agwedd hyblyg tuag at dasgau a llwyth gwaith, gan ddangos gofal tuag at ein cymunedau | Hanfodol | Cyweliad |
| 8 | Dangos ymddiriedaeth, didwylledd a pharch wrth ddelio â phobl | Hanfodol | Cyweliad |
| 9 | Uchelgais i wneud cynnydd | Hanfodol | Cyweliad |
| 10 | Hyderus, gyda'r gallu i awgrymu syniadau arloesol i wella profiad cwsmeriaid | Hanfodol | Cyweliad |
| 11 | Sylw rhagorol i fanylion; yn ymfalchïo'n amlwg yn eu gwaith | Hanfodol | Cais a Chyweliad |
| 12 | Cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain | Hanfodol | Cyweliad |
| 13 | Yn cydnabod safbwyntiau eraill ac yn barod i groesawu newidiadau | Hanfodol | Cyweliad |

Ch. Anghenion Eraill

| Rhif | Nodwedd | Criteria | Mesurwyd |
|------|--|----------|----------|
| 1. | Tystiolaeth o ddealltwriaeth o weini bwyd a gwerthiant alcohol | Hanfodol | Cais |
| 2. | Gwybodaeth weithiol o wahanol raglenni meddalwedd cyfrifiadurol (<i>h.y. Microsoft Word, Excel, meddalwedd rheoli bwyty, POS</i>) | Hanfodol | Cais |
| 3. | Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol personol, gan geisio cyfleoedd hyfforddi/datblygu ac yn barod i fynychu rhaglenni hyfforddi yn ôl y gofyn | Hanfodol | Cais |
| 4. | Ymrwymiad i ddarpariaeth gwasanaeth o ansawdd uchel | Hanfodol | Cais |
| 5. | Gallu i weithio oriau anghymdeithasol | Hanfodol | Cais |
| 6. | Gallu i weithio patrymau gwaith hyblyg e.e. shifftiau boreol, shifftiau nos a phenwythnosau | Hanfodol | Cais |

D. Cymwysterau

| Rhif | Nodwedd | Criteria | Mesurwyd |
|------|---|----------|----------|
| 1. | Tystysgrif Diogelwch Bwyd (Lefel 2 o leiaf) | Hanfodol | Cais |
| 2. | Trwydded yrru DU llawn neu'r gallu i deithio i unrhyw safle Lles@Merthyr (weithiau ar fyr rybudd) | Hanfodol | Cais |

Dd. Yr Iaith Gymraeg

| Rhif | Nodwedd | Criteria | Mesurwyd |
|------|--|----------|----------|
| 1. | Y gallu i siarad Cymraeg | Dymunol | Cais |
| 2. | Y gallu i wrando ar a deall sgysiau yn y Gymraeg | Dymunol | Cais |
| 3. | Y gallu i ysgrifennu yn y Gymraeg | Dymunol | Cais |
| 4. | Y gallu i ddarllen Cymraeg | Dymunol | Cais |